# PWYLLGOR PENSIYNAU, 03.12.10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd John W. Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorydd Trevor Edwards

**Aelod Cyfetholedig:-**Y Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Simon Glyn, John G. Jones, J.R. Jones (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2010 fel rhai cywir.

## 3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2011/12 – 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn ofynnol adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) teirblynyddol erbyn 31 Mawrth 2011. Cymeradwywyd DSC cyfredol Gwynedd gan y Pwyllgor Pensiynau ar 7 Chwefror 2008 ac fel rhan o'r adolygiad bydd rhaid i'r awdurdod sy'n gweinyddu, ymgynghori gyda'r 40 cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, gyda'r actiwari ac ymgynghorydd y gronfa ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir yn addas.

Nododd y cynhelir y prisiad actiwaraidd teirblynyddol ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau rhagarweiniol ar gael yn hwyr ym mis Tachwedd ac fe adroddir arnynt i'r pwyllgor hwn. Mae rhai cronfeydd pensiwn yng Nghymru eisoes wedi derbyn eu canlyniadau ond yn anffodus, mae canlyniadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn hwyr oherwydd yr oedi mewn derbyn gwybodaeth angenrheidiol gan rai o gyflogwyr y gronfa. Defnyddiwyd y tybiaethau a gytunwyd ar gyfer y prisiad blaenorol wrth baratoi'r gwerthusiad actiwaraidd cyfredol. Mae'r cyfnodau adfer diffyg ar gyfer y gwahanol gategoriau o gyflogwyr yn ddarbodus ac yn gyson gyda'r prisiad blaenorol.

Penderfynodd y pwyllgor hwn ar 16 Rhagfyr 2009 i fabwysiadu'r system "Compass" er mwyn datblygu cynllun tymor hirach ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwyr sydd â sicrwydd o ddyfodol hir dymor. Byddai hyn yn lledaenu'r newid mewn cyfraniadau tros gyfnod hirach ac yn cyfyngu'r newid mewn blynyddoedd unigol. Nid oes modd cynnwys rhai cyflogwyr yn y system yma gan nad yw eu dyfodol tymor hir wedi ei warantu. Fel gweinyddwr y Gronfa Bensiwn, rhaid i'r Cyngor warchod buddiannau holl gyflogwyr y gronfa a'u

gwarchod o'r sefyllfa lle bo cyflogwr yn cau lawr ac yn gadael diffyg heb ei dalu yn y Gronfa Bensiwn, fel a ddigwyddodd yn achos Theatr Gwynedd yn ddiweddar. Yn dilyn derbyn adroddiad rhybudd buan gan yr actiwari, anfonwyd arwydd rhagarweiniol o'r codiadau cyffrediinol arfaethedig mewn cyfraniadau cyflogwyr i'r cyrff nad ydynt yn y cynllun "Compass". Mae nifer ohonynt wedi ymateb gyda sylwadau a phryderon a rhoddodd fanylion am y cyflogwyr sydd wedi ymateb hyd yn hyn. Y prif bryder a godwyd oedd fforddiadwyedd y codiad rhagarweiniol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Nodwyd y byddai rhai cyrff yn wynebu problemau ariannol ac o ganlyniad am ystyried cau'r gronfa i weithwyr newydd, neu hyd yn oed dynnu allan o'r gronfa. Gofynnodd rhai cyflogwyr am gyfnod adfer diffyg cyhyd â'r cynghorau, tra mae eraill yn awyddus i ledaenu'r codiad tros o leiaf dair blynedd. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid osgoi codiadau uchel mewn cyfraniadau cyflogwyr hyd nes y byddai ardrawiad diwygiadau'r Llywodraeth i bensiynau sector cyhoeddus yn hysbys.

Nododd y cyflwynir penderfyniadau'r pwyllgor hwn i gyfarfod o'r cyflogwyr ar 6 Rhagfyr 2010 wrth drafod y canlyniadau actiwaraidd.

Yn dilyn derbyn canlyniadau cychwynnol y prisiant yn ddiweddar, bydd yn ofynnol i'r pwyllgor benderfynu ar y polisiau arfaethedig sydd i'w cynnwys yn y datganiad drafft fyddai'n destun ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y gronfa. Gofynnodd i'r pwyllgor benderfynu ar y materion canlynol –

Y Premiwm Risg gydag Ecwiti
Yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na bondiau. Cyfeiria hyn at y gwahaniaeth rhwng yr enillion a ddisgwylir o ecwiti a'r enillion a ddisgwylir o fondiau. Fel mae'r rhagdybiaeth o'r gwahaniaeth rhwng yr enillion disgwyliedig yn cynyddu, mae'r risg yn cynyddu a'r sail cyllido yn mynd yn llai darbodus. Ym mhrisiant 2007, 'roedd y dybiaeth ar gyfer yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti a bondiau corfforaethol yn 1.4%. Mae'r mwyafrif o gronfeydd sy'n gleientiaid Hymans yn rhagdybio premiwm risg llai darbodus, ond nid yw profiad buddsoddi (ecwiti o'i gymharu â bondiau) ers y prisiad blaenorol (na'r degawd ers 2000) yn cefnogi achos tros gynyddu'r premiwm risg. Gofynnodd os yw'r pwyllgor yn gyfforddus gyda defnyddio'r un dybiaeth (premiwm 1.4% o'r risg gydag ecwiti) ar gyfer prisiant 2010.

Cyfnod ar gyfer adfer diffyg
Ym mhrisiant 2007, penderfynodd yr awdurdod gweinyddol y byddai cyrff statudol gyda phwerau codi trethi yn cael adfer unrhyw ddiffyg tros gyfnod o 20 mlynedd. Mae'r cyrff statudol hyn yn cynnwys y tri awdurdod lleol, cynghorau cymuned/tref, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunwyd hefyd i ganiatau i'r colegau adfer unrhyw ddiffyg tros gyfnod o 15 mlynedd yn hytrach na thros oes gwaith disgwyliedig yn y dyfodol. 'Roedd hyn yn effeithio ar Goleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Llandrillo. Mae Coleg Harlech wedi ei gydrannu gyda'r cyrff bychain a ganiateir, felly nid oeddent hwy yn cael newid y cyfnod adfer diffyg. 'Roedd y diffyg ar gyfer pob cyflogwr arall i gael ei adfer tros gyfnod o oes gwaith disgwyliedig gweddill aelodau'r cynllun yn y dyfodol. 'Roedd angen i'r pwyllgor benderfynu os dylid lleihau cyfnod adfer diffyg y cyrff statudol i 17 mlynedd neu beidio, ac os dylid cadw cyfnod o 15 mlynedd y colegau neu ei leihau. Byddai'r lleihad yn adlewyrchu'r tair blynedd sydd wedi mynd heibio ers cytuno'r cyfnod adfer o 20 neu 15 mlynedd.

Cyflwyno Cynnydd mewn Cyfraniadau'n Raddol
Ymhellach i drafodaethau'r awdurdod gweinyddol gyda'r cyflogwyr a chyfarfod gyda'r actiwari ar 25 Tachwedd 2010, mae angen ystyried y cyfnod ar gyfer rhannu codiadau cyfraniadau cyflogwyr. Oherwydd codiadau'n uwch na 3% mewn rhai achosion, mae opsiwn i rannu'r codiad tros gyfnod o 6 blynedd gyda chodiad o leiaf 0.5% y flwyddyn tan

gyrraedd y codiad llawn. ‘Roedd angen i’r pwyllgor benderfynu os ydynt yn gyfforddus i barhau gyda’r polisi hwn.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cytuno y dylid defnyddio’r un dybiaeth ar gyfer yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti, sef premiwm o 1.4% o’r risg gydag ecwiti ar gyfer prisiant 2010.**
**b) Cadw at 20 mlynedd fel cyfnod adfer diffyg y cyrff statudol a 15 mlynedd ar gyfer y colegau.**
**c) Ymestyn y cyfnod ar gyfer rhannu codiadau cyfraniadau’r cyflogwyr tros chwe blynedd ar gyfer yr achosion hynny lle bo’r cynnydd yn y prisiad tros 1.5% ond os rhoddir cyfleustra o’r fath dylid sicrhau codiad o leiaf 0.5% y flwyddyn tan gyrraedd y codiad llawn.**

**4. CYFYNGU’R RHYDDHAD TRETH AR GYNILION PENSIWN**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Pensiynau y cadarnhaodd y Llywodraeth yng nghyllideb Mehefin 2010 ei ymrwymiad i gyfyngu’r lefel o ryddhad treth ar gael wrth gronni hawliau pensiwn blynyddol a gydol oes mewn ffurf a oedd i *sicrhau bod trefn rhyddhad treth ar bensiynau’n parhau’n deg a chynaliadwy, ac i warchod arian y wlad.* Dywed y Llywodraeth ei fod yn darparu rhyddhad treth hael i gynilo hawliau pensiwn i annog unigolion gymryd cyfrifoldeb tros gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad ac i gydnabod bod cynilion pensiynau ddim mor hyblyg â mathau eraill o gynilo. ‘Roedd cost darparu rhyddhad treth net o dreth incwm oddeutu £19bn yn 2008/9.

Nododd y gostyngir y Lwfans Blynyddol o Ebrill 2011 ar gyfer cynilo treth-freintiedig o’i lefel presennol o £255,000 i £50,000. Bydd rhyddhad treth yn weithredol ar raddfa ffiniol yr unigolyn. Prisir gwerth cyfraniadau tybiaethol i gynlluniau pensiwn buddion diffinedig ar sail “cyfradd unffurf” o 16 gyda hawl i unigolion unioni unrhyw ormodedd tros y Lwfans Blynyddol yn erbyn lwfansau nas defnyddiwyd yn y dair blynedd flaenorol. Gofynnwyd am gyngor Actiwari’r Llywodraeth ar lefel priodol y ffactor a phenderfynwyd ei osod fel 16, a olygai bod cynnydd o £1,000 mewn buddion pensiwn yn werth £16,000 yn erbyn y lwfans. Adbrisir gwerth buddion y flwyddyn flaenorol yn erbyn yr indecs “CPI” gyda chroniad negyddol yn cael ei drin fel sero. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar opsiynau fyddai’n galluogi unigolion fyddai’n gweld cynyddiad sylweddol mewn hawliau pensiwn mewn blwyddyn neilltuol i dalu’r dreth allan o’u pensiwn yn hytrach nac o incwm cyfredol. Penderfynwyd eithrio aelodau gohiriedig o’r drefn.

Cred y Llywodraeth y dylid gweithredu’r cyfyngiad ar ryddhad treth pensiwn mewn ffordd deg i unigolion gyda gwahanol amgylchiadau cyn belled â phosibl, ond bod rhaid iddo fod yn gadarn i risg osgoad. Yn ogystal, nid yw’n addas gweithredu’r prawf Lwfans Blynyddol ym mlwyddyn marwolaeth nac mewn blwyddyn lle telir cyfandaliadau i unigolion a dderbyniodd diagnosis salwch terfynol/difrifol. Cydnabu’r Llywodraeth hefyd y byddai’n amhriodol gweithredu’r Lwfans Blynyddol mewn rhai achosion o salwch mwyaf difrifol ac edrychir hefyd at eithrio buddion salwch o’r drefn Lwfans Blynyddol. Nid yw’r Llywodraeth yn credu y dylid gwneud eithriad ar gyfer unigolion yn cael eu diswyddo. Mae’r mwyafrif o becynnau diswyddo yn cynnwys rhagdaliad, gyda’r £30,000 cyntaf yn rhydd o dreth. Mewn llawer o achosion, mae’r pecyn tâl cyfan yn llai na £50,000.

Mae’r Llywodraeth yn disgwyl i gynlluniau addasu a darparu mwy o hyblygrwydd yn y dewisiadau ar gael i aelodau ar sut i gymryd pecynnau diswyddo, ac yn yr achosion prin hynny lle gwelir taliadau diswyddo yn achosi sbigen yng nghroniad pensiwn, credir bod yr hawl i ddwyn trosodd gwerth hyd at dair blynedd o lwfansau rhydd o hyd at dair blynedd blaenorol, yn debygol o leddfu’r gormodedd tros y Lwfans Blynyddol mewn rhan fwyaf o

achosion. Bwriadai'r Llywodraeth osod allan fanylion pellach ar sut i weithredu eithriadau wrth reoli'r risgiau osgoad fyddai'n agor i fyny mewn cymalau drafft i'w cynnwys ym Mesur Cyllid 2011 i'w gyhoeddi at bwrpas ymgynghoriad yn hwyr yn 2010. Yn ogystal, ac yn ddarostyngedig i ganlyniad ymgynghoriad ar fanylion a'i ymdriniaeth, bwriedir gostwng y lwfans gydol oes o'i lefel presennol o £1.8m i £1.5m o Ebrill 2012. Er nad oes cadarnhad o'r manylion terfynol ar sut i weithredu'r drefn newydd hyd yn hyn, disgwylir mai cyfrifoldeb aelodau unigol yw monitro ac adrodd unrhyw ormodedd croniad i CthEM. Fodd bynnag, disgwylir bod gweinyddwyr cynlluniau pensiwn angen hysbysu aelodau am werth croniadau blynyddol a hynny o fewn amserlen benodedig.

Nododd y cynhyrchwyd eisoes newyddlen ar hyn a newidiadau eraill ac fe'i ddosbarthwyd i'r aelodau. Bydd angen uwchraddio'r meddalwedd gweinyddol yn ogystal â'r angen i gyflogwyr y gronfa ddarparu adroddiadau cyfraniadau blynyddol yn gynharach nag a wneir ar hyn o bryd i alluogi'r uned weinyddol i brosesu a chynhyrchu'r Datganiadau Buddion Blynyddol o fewn yr amserlen a osodir gan CthEm.

Cytunwyd, ar gais aelod, bod aelodau'r pwyllgor i dderbyn copi o'r newyddlen.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**5. ADRODDIAD INTERIM COMISIWN GWASANAETH PENSIYNAU ANNIBYNNOL GAN LORD HUTTON OF FURNESS (ADRODDIAD HUTTON)**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi bod pensiynau'r sector cyhoeddus yn darparu incwm ymddeoliad i filiynau o bobl yn y DU. Oherwydd natur buddiannau diffiniedig o'r cynlluniau a'r gost gynyddol i'w cyllido, sefydlwyd Comisiwn Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus Annibynnol er mwyn adolygu'r sefyllfa. Rhoddwyd brîff i'r Comisiwn i gynnal adolygiad strwythurol sylfaenol o ddarpariaeth pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a chynnig argymhellion i'r Canghellor a'r Prif Ysgrifennydd ar drefniadau pensiwn sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir, sy'n deg i'r gweithlu cyhoeddus a'r trethdalwr ac sy'n gyson gyda'r her ariannol sydd o'n blaenau, tra'n gwarchod hawliau cronedig. Mae cynllun llywodraeth leol (LGPS) yn gynwysedig yn y brîff o'r holl bensiynau sector cyhoeddus. Nododd bod yr LGPS yn gynllun wedi ei ariannu, tra bod y mwyafrif o'r cynlluniau eraill heb eu hariannu gyda'r cyfraniadau a dderbynnir yn cael eu defnyddio er mwyn talu pensiynau cyfredol. Nid oes bwriad i newid y sefyllfa hon. Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ar 7 Hydref 2010. Disgwylir yr adolygiad terfynol y flwyddyn nesaf i gyd-daro gyda chyllideb 2011.

Nododd bod y bwriad yn cydnabod pwysigrwydd pensiynau'r sector cyhoeddus a'r bwriad gwreiddiol pan sefydlwyd cynlluniau o'r fath flynyddoedd maith yn ôl. Mae'r gost wedi cynyddu oherwydd bod disgwyliad oes yn hirach, cynnydd yn y nifer o bensiynwyr ac ymestyn hawliau pensiwn i'r holl weithlu. Mae'r gofyn i ddarparu pensiynau cymharol yn creu rhwystr i ddarparwyr tu allan i'r sector cyhoeddus a gallai wneud trefniadau gwaith gyda'r sector preifat/gwirfoddol yn anoddach. Mae'r gyfradd disgowntio a ddefnyddir i osod cyfraniadau cyflogwyr mewn prisiadau actiwaraidd yn allweddol a dylid ei adolygu. Mae'r diwygiadau cyfredol a'r rhai a wnaed yn y gorffennol wedi helpu i leihau'r gost tymor hir o ariannu pensiynau'r sector gyhoeddus. Casgliad y Comisiwn yw bod angen diwygiad pellach o'r cynlluniau cyfredol. Argymhellir rhai diwygiadau tymor byr yn yr adroddiad interim. Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ymhellach gyda mudiadau perthnasol ac yn cyflwyno amrediad o opsiynau i'r Llywodraeth. Bydd yr adroddiad terfynol yn gosod allan yn fwy manwl yr ystod eang o ddatrysiadau radical mewn ymgais i geisio sicrhau balans rhwng tegwch i'r trethdalwr ac aelodau'r cynllun. Bydd hawliau cronedig gweithwyr yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ddiwygiadau.

Mewn perthynas â'r diwygiadau tymor byr, mae angen diwygio cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus ond mae angen amddiffyn hawliau cronedig yn iawn. Mae angen gwaith pellach ar hyn ac felly nid yw hyn yn opsiwn hyfyw er mwyn cyflawni arbedion tymor byr. Cytunodd y Comisiwn mai'r ffordd mwyaf effeithiol i gyflawni arbedion tymor byr yw i godi cyfraniadau gweithwyr a chyfrifoldeb y Llywodraeth yw penderfynu ar lefel y codiadau a ddylai warchod y rhai ar gyflogau isel a chael eu cyflwyno tros gyfnod o amser. Cyhoeddodd y Llywodraeth yn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, y byddai cyfraniadau gweithwyr yn codi 3% ar gyfartaledd erbyn 2014/15. Cyflwynir y codiadau yn raddol o 2012 ymlaen. Oherwydd bod hwn yn gyfartaledd ar gyfer holl gynlluniau'r sector cyhoeddus sydd gyda chyfraddau cyfraniadau gweithwyr gwahanol, nid yw'n hysbys faint fydd y codiad i aelodau'r LGPS.

Parthed y diwygiadau hir dymor, mae'r adroddiad interim yn nodi na allai'r system gyfredol ymateb yn ddigon hyblyg i newidiadau demograffig y blynyddoedd diweddar a'r angen am fwy o symudedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Fe arweiniodd hefyd at fuddion anghyfartal i "high flyers" o'i gymharu â'r "low flyers" a rhaniad annheg o gostau rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr. Cred y Comisiwn bod rhaid gwneud diwygiad strwythurol hir dymor i ddarpariaeth buddion y cynllun cyflog terfynol ac nad yw'r model cyfraniadau diffiniedig unigol ar gyfer gweithwyr yn addas ar gyfer pensiynau yn y sector cyhoeddus. Nodir yn yr adroddiad bod angen model arall ar gyfer y cynllun, sy'n rhannu'r risg yn deg rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr ac sy'n darparu pensiwn digonol ar gyfer yr aelodau. Ystyrir ystod o strwythurau buddion eraill, megis trefniadau cyfartaledd gyrfa a chynlluniau hybrid a fyddai'n cyfuno'r modelau buddion diffiniedig a chyfraniadau diffiniedig. Bydd yr adroddiad terfynol yn ystyried costau gweinyddu cynlluniau pensiwn a'r cyfleon i resymoli ac i leihau costau. Byddai hyn yn cynnwys symleiddiad posibl a chyfuno rhai swyddogaethau ar draws gwahanol gynlluniau ac unedau o fewn cynlluniau. Nododd yr adroddiad fel enghraifft benodol, sawl cronfa LGPS, sut mae costau'n gwahaniaethu rhyngddynt a'r effeithlonrwydd posibl petai'r nifer o gronfeydd yn cael eu lleihau.

Nododd y byddai'r adroddiad terfynol yn cynnwys yr opsiynau ar gyfer diwygiad hir dymor ac argymhellion ac fe'i gyhoeddir ar gyfer cyllideb 2011.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. RHESYMOLI CRONFEYDD PENSIWN YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr adroddwyd i'r pwyllgor hwn ym Mehefin 2009 bod Trysoryddion y Cronfeydd Pensiwn yng Nghymru wedi ystyried a fyddai yna fanteision i gael mwy o gydweithio neu uno cronfeydd yng Nghymru. Gan nad oedd llawer o dystiolaeth i roddi sylfaen i benderfyniad, penderfynodd y pwyllgor y byddai'n cymryd rhan mewn ymgyrch ar y cyd gyda chronfeydd pensiwn eraill yng Nghymru i gomisiynu astudiaeth i sefydlu a fyddai manteision ariannol o gael llai o gronfeydd yng Nghymru. Ym Mawrth eleni, fe gomisiynodd Is Grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru astudiaeth o'r fath gan Price Waterhouse Coopers. Cwblhawyd yr astudiaeth, a disgwylir am yr adroddiad terfynol. Bydd yr adroddiad yn awgrymu bod yna le i greu mwy o arbedion effeithlonrwydd ynghyd â chysoni safonau gwasanaeth drwy leihau nifer y cronfeydd yng Nghymru. 'Roedd yr arbedion posibl yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau gwaith mwy manwl.

Nododd bod yr astudiaeth yn cydnabod y byddai unrhyw newid yn cymryd amser i'w weithredu ac yn gallu bod yn gymhleth ac y byddai yna gostau fyddai'n ad-dalu eu hunain tros gyfnod, yn ddibynnol ar y dewis a wneir. Yn ychwanegol, gan mai bob tair blynedd y newidir cyfraniadau'r cyflogwyr, sef adeg y prisiad bob tair blynedd, y cynharaf y byddai unrhyw arbedion ar gael hyd yn oed o weithredu'n syth fyddai 2014/2015. Byddai

materion rheolaethol hefyd yn fater sylweddol yng nghyswllt unrhyw waith pellach i'w gyflawni. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth yn gosod sylfaen gref i awgrymu y dylid cyflawni mwy o waith manwl, ac mae Trysoryddion y Cronfeydd Pensiwn ar hyn o bryd yn ystyried y dylid gwneud gwaith manylach i sefydlu achos busnes amlinellol ar sail lleihau nifer y cronfeydd pensiwn Cymreig. Yr amcan yw sefydlu'r model delfrydol ar gyfer Cymru, sef un cronfa neu dwy, tair neu bedair o gronfeydd is-rhanbarthol. Bydd Is-Grŵp Pensiynau Trysoryddion Cymru yn mynd a'r gwaith ymlaen gyda chymorth priodol. Mae'r grŵp o'r farn bod hwn yn waith pwysig i sefydlu manylder yr achos prima facie i resymoli nifer y cronfeydd yng Nghymru a fyddai'n gwella effeithlonrwydd a chysoni safonau gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD nodi casgliadau'r adolygiad a chytuno i barhau i gymryd rhan yn y gwaith pellach sydd i'w gyflawni.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.00am